LlG35.S.92

# GALAR-GAN

AR

FARWOLAETH Y DIWEDDAR

# BARCH. DAFYDD JONES,

GWEINIDOG YR EFENGYL YN

## CLYDACH A CHADLE, GER ABERTAWY,

MORGANWG,

Yr hwn a fu farw Ionawr 1, yn y flwyddyn 1845, yn 61 ml. oed.

GAN MORGAN MORGANS,

BETHESDA'R FRO.

"Canys Dafydd, wedi iddo wasanaethu ei genedlaeth ei hun trwy ewyllys Duw, a hunodd, ac a ddodwyd at ei dadau."—Actau 13. 36

Yn ei fedd du oer fan—mae JONES
Ddoeth, dduwiol ei anian;
A'i enaid yn nhir Canaan,
Duw yr hedd yw ei Rhan.

ABERTAWY:

ARGRAFFWYD GAN E. GRIFFITHS, HEOL FAWR.

1846.

X2C53107779

Yn y Drysorfa Gynnulleidfaol am Chwefror, 1845, ymddangosodd yr hanes canlynol am farwolaeth Mr. Jones.

Nos Fercher, Ion. 1, y Parch. D. Jones, gweinidog yr efengyl yn Clydach a'r Fforest Fach. Rhyngodd bodd i'r Arglwydd osod terfyn ar fywyd ei was defnyddiol, trwy ei gymmeryd ato ei hun mewn modd disymwth. Bore dydd Mercher ymddangosai yn hollol iach a chysurus; ac o herwydd ei fod i bregethu mewn angladd yn y Fforest Fach am ddau o'r gloch, cymmerodd ei giniaw yn gynt nag arferol, mewn trefn i fod yno yn brydlon. Ar y ffordd teimlai y parlys mud yn ei gymmeryd (yr oedd wedi ymosod arno ddwywaith o'r blaen), ond rhag ei flaen yr aeth, gan feddwl ei orchfygu. Canfyddodd rhai ef yn dyfod, a deallwyd fod rhywbeth arno wrth ei gerddediad sigledig pan aethant i'w gyfarfod, a chyda eu bod ar ei bwys, yr oedd ar syrthio; yna dygwyd ef i'r tŷ nesaf, sef y Beaufort Arms. Ni chafwyd ond ychydig eiriau oddiwrtho; dywedodd pa le y teimlodd hi yn ei gymmeryd. Gofynwyd iddo fyned ar y gwely, ond nacaodd, gan y buasai yr angladd yno yn fuan; ond gwaethygu a wnaeth dan ddyrnod angeu, fel yr ystyriodd mai gwell oedd myned i'r gwely, i edrych a ddelai yn well. Ymddangosai fel pe byddai yn cysgu, ac oddeutu hanner nos, yn dawel ac esmwyth, diangodd y wreichionen fywiol o'r babell briddlyd i dŷ nid o waith llaw, tragywyddol yn y nefoedd; at fyrddiwn o angylion, i gymmanfa a chynnulleidfa y rhai cyntafanedig, lle yn ddiau y cafodd y derbyniad croesawgar hwnw, "Da was, da a ffyddlon, buost ffyddlon ar ychydig, mi a'th osodaf ar lawer; dos i mewn i lawenydd dy Arglwydd."

Dydd Sadwrn, hebryngwyd ei gorff i'w wely pridd hyd udganiad yr udgorn mawr. Dangoswyd parch mawr iddo gan yr eglwysi, gweinidogion, ac ereill, ar ddydd yr angladd. Claddwyd ef yn Bethlehem, Fforest Fach: gweddiodd y Parch. E. Jacob, a phregethodd y Peirch. Jones, Heol y Castell, oddiar Preg. 7. 13. a Griffiths, Alltwen, oddiar 1 Pedr 4. 7; yna areithiodd y Parch. J. Davies, Mynyddbach, ar lan y bedd, a gorphenodd y Parch. W. Morris, Glandwr, trwy weddi. Yr oedd hefyd yn bresenol yn yr angladd, y Peirch. T. Davies, Pentref; E. Watkins, Canaan; E. G. Williams, Sketty; E. Griffiths, Abertawy; T. Davies, Treforris; W. Thomas, Clydach; y Meistri E. Evans a T. Thomas, Abertawy, a W. Hill, Clydach. Gadawodd weddw, plant, a chyfeillion lawer i alaru ar ei ol.

# GALAR-GAN.

1 O! fyd sy'n llawn trallodau,
Gofidiau mawrion maith,
Rhai beunydd 'rwy'n gyfarfod
Mor hynod ar fy nhaith:
Pan êl un storom heibio
Gwna arall godi draw,
Nes gwneud i'm henaid ochain,
A'm bron yn brudd mewn braw.

2 Daeth newydd trist i'm clustiau,
Newidiodd hwn fy ngwedd;
Yr enwog Jones, o Glydach,
Sy â'i bwys ar waelod bedd:
Mae'n clwyfo megis cleddyf,
Yn hedeg fel yr haint,
Ac etto eithaf melus
Marwolaeth un o'r saint.

3 Peth ofer yw im' wylo,—
Ynfydrwydd hollol yw,
Na grwgnach dim o herwydd
Daionus drefn Duw;
Ei ffyrdd sydd anchwiliadwy,
A'i enw yn gadarn Iôr;
Mae'i daith uwchlaw'r cymmylau,
Tan fanau dyfna'r môr.

4 Derbyniwyd Jones i'r eglwys
Yn un-ar-bymtheg o'd,
Gan un o'r gweinidogion
Rhagora' ag oedd yn bod,*
Yn ngrym yr awel rymus
Fu yn y Mynyddbach,
Yn mhlith y dorf sydd heddyw
Fel yntau'n berffaith iach.

5 'Nol iddo dd'od i'r eglwys
Ymhob peth llanwai 'i le;
Nid llawer o'i gyfoedion
Oedd debyg iddo fe:

*Y Parch. D. Davies, gynt o Abertawy.

Cynnyddodd o ran doniau
  A rhinwedd yr un pryd,
Nes myn'd yn wrthddrych sylw
  I'r werin fawr i gyd.

6 Arwyddion ymddangosodd
  Yn fuan ynddo fe,
Fod iddo waith neillduol
  Yn ngwinllan Brenin ne';
Sef traethu geiriau'r bywyd
  Ar g'oedd y byd i ma's,
Egluro trefn achub,
  Pregethu Crist a'i ras.

7 Gan Seion fe wnawd sylw
  O hono'n fuan iawn;
Ei gymhell ga'dd gan gannoedd
  I lawn ddefnyddio'i ddawn:
Fe'i codwyd i'r areithfa,—
  'Roedd yno'n llon'd y lle;
Yr oedd pregethu'n gweddu
  Bob amser iddo fe.

8 Gwnaeth ufuddhau i'r alwad
  A gafodd gan ei Dduw,
Yn dawel ymostyngodd
  I farn yr eglwys wiw:
Gafaelodd yn ei orchwyl,
  Bu'n ffyddlon yn mhob man,
Gorphenodd ei ddiwrnod,
  A safodd yn ei ran.

9 Bu dair-ar-ddeg-ar-hugain
  O flwyddau llonwych llawn,
A rhagor gyda hyny,
  Os wyf yn cofio'n iawn,
Yn ngwaith y weinidogaeth,—
  Gwaith sobr, pwysig yw;
'Does neb yn addas iddo,
  Heb gymmorth Ysbryd Duw.

10 Dyn cynnes oedd o ysbryd,
  A helaeth o ran dawn,
Un treiddgar yn ei feddwl,
  Llafurus, diwyd iawn:

Cymmodwr, gwir gariadus
  Oedd JONES i bob rhyw ddyn,
A chyn gwnai ddrwg i arall
  Gwnai niwed iddo ei hun.

11 Un o'r rhai mwyaf serchog
  Ac enwog yn ei ddydd;
O dan ei weinidogaeth
  Daeth llawer caeth yn rhydd;
Yn llaw ei Dduw bu'n foddion,
  Trwy gydol ddyddiau'i oes,
I ennill torf i gredu
  I'r Gwr fu ar y groes.

12 Holl ardal Abertawy
  Sy'n awr mewn galar dwys,
Gwaith colli anwyl gyfaill,
  A'i guddio dan y gŵys;
'R eglwysi dan ei ofal
  Ordow'd gan dristwch du,
A'r werin yn gyffredin
  O'i farw yn cwyno fu.

13. 'Does obaith am ei weled
  Ef mwyach ar y llawr,
Na'i glywed, fel y clywyd,
  Yn y gymmanfa fawr,
Cwrdd chwarter na'r addoldai,
  Lle byddai'n arfer bod;
Mae wedi rhoddi ffarwel
  I bob man îs y rhod.

14 Yn wastad wrth bregethu
  Amcanai roddi ma's
Sefyllfa dyn truenus,
  Ac hefyd olud gras;
Gogoniant Person Iesu,
  Rhinweddau'i aberth drud,
Yr hwn sy'n berffaith ddigon
  Ar gyfer eisiau'r byd.

15 Wrth gofio'r oriau'r cyfain
  A dreuliais gydag ef,
Nis gallaf lai nag wylo
  Am dano yn oer fy llef:

Derbyniodd fi i'r eglwys,
Ymaflodd yn fy llaw,
Bu'n ffyddlon i'm cyf'rwyddo
I dre' Caersalem draw.

16 Er nad oedd, mwy nag ereill,
Heb feiau ar y llawr,
'Rwy'n credu ei fod yn ddisglaer
O fewn y nef yn awr,
Lle nad oes son am bechod
Na gofid o un rhyw,
Yn moli yr Oen fu farw
I ni rhai gwael gael byw.

17 O angeu, rhoddaist ergyd,
Un o'r rhai tryma'r 'rio'd;
Mae cannoedd heddyw'n cwyno
O'r dynion goreu'n bod,
Gwaith taro Jones anwyla'
O'r babell bridd i ma's,
A rhoddi ei gorff i orwedd
O dan y ddaear las.

18 Ond er ei daro'n isel
Gan angeu, brenin braw,
Mae'n uchel mewn gogoniant
Ar fryn Caersalem draw,
Yn canu am ei olchi
A'i gànu yn y gwa'd,
Ei gynnal yn yr anial,
Nes d'od i'r Ganaan wlad.

19 Beth mae ef yn ei glywed
Neu yn ei wel'd yn awr,
Sydd beth uwchlaw dychymyg
Y doetha' o deulu'r llawr:
O ran ei bwys mae'n 'sgafnach
Na phethau lleia'r byd,
Ond sicr, er ein syndod,
Mae sylwedd yw e gyd.

20 O frodyr a chwiorydd,
Sy'n drwm yn Nglydach draw,
Nac wylwch fel heb obaith;
Mae'r amser llon gerllaw

Cewch gwrdd â'ch hen weinidog
Ar dawel fryniau hedd,
Yn debyg i eich Harglwydd
'Nol dod i'r lan o'r bedd.

21 A boed i'r gwr ordeiniwyd
Yn lle fy nhirion dad,
Yn fendith fawr i'r eglwys,
Ac addurn yn y wlad;
Yr Arglwydd a'i cynnalio,
A'i llwyddo yn mhob lle,
I ennill pechaduriaid
Dan faner Brenin ne.'

22 A chwithau sydd yn Nghadle,
Ni welais i chwi erio'd,
Derbyniwch air o gyngor
Gan un o'r gwaela'n bod;
Gwnewch dawel ymddarostwng
I ddoeth drefniadau Duw,
Gan dd'wedyd, gydag Eli,
Gwnaed fyno, 'r Arglwydd Dduw.

23 Na ddigalonwch, frodyr,
Mae'r Iesu etto'n fyw;
Gweddiwch am gynnaliaeth
Yn glau, a'r Nef a glyw:
Yr Arglwydd wnelo'i breswyl
Bob amser yn eich plith,
Ac at eich rhif chwaneged
O'r rhei'ny gedwir byth.

24 Dymunaf bob daioni
I'w weddw dirion ef;
Ei blant a phlant y rhei'ny
Fo'n etifeddion nef:
Tad tyner yr amddifaid,
A Barnwr gweddwon gwan,
Ei law fo odditanynt
I'w cynnal byth i'r lan.

25 Ffarwel, fy mwyn gydymaith,
Ymadael rhaid i mi;
'Rwy'n disgwyl ail gyfarfod
O fewn Caersalem fry,

Yn mhlith yr hen gyfeillion
Fu'n anwyl iawn cyn hyn;
Cawn nofio yn drag'wyddol
Yn hedd Calfaria fryn.

26 Fy enaid, cais adnabod
Yr Iesu i ti'n rhan,
Fe gynnal hwn di fynu
Pan yn y cyfyng fan:
Rho wir dderbyniad iddo,
Gwaredwr cadarn yw;
A chred ei fod yn ddigon
I farw ac i fyw.

---

PENNILLION YCHWANEGOL.

1 Nid syrthio i ddiddymdra mae dyn yn angeu du;
Arafed yr anffyddiwr,—nac aed yn mlaen mor hŷ:
Mae'n wir rhydd angeu derfyn ar ddyn yn hyn o fyd;
Ond ni *ddifodir meddwl,*—ystyriwn hyn i gyd.

2 Mae'r *meddwl* wedi lunio at fyd sydd etto i ddod,
At gyflwr mwy ardderchog na hwn sydd îs y rhod;
Egino mae'n bresenol, â rhagddo o awr i awr,
Nes myn'd i'r byd ysbrydol, y sylweddolfyd mawr.

3 Cynneddfau'r meddwl dynol ynt gryfion, eang iawn;
Parhau wnant fyth i ledu, gan gael eu cadw'n llawn,
Gan ddyoddef gwae a thrallod, o fewn i uffern drist,
Neu dreiddio mlaen i wynfyd a hedd, trwy Iesu Grist.

4 Mae'r modd y rhodiwn yma in' oll o ddirfawr bwys;
Yn ol ein gwaith derbyniwn, ystyriwn hyn yn ddwys:
Ni bydd i'r meddwl drengu yn angeu, sobr awr,
Ond llithro a wna drosodd i'r trag'wyddolfyd mawr.

5 Yn llwybrau crefydd Iesu mae nerth i'w gael o hyd,
I fyn'd trwy'r gorthrymderâu sydd yma yn y byd;
Mae'r hyn *mae'n awr yn roddi,* a'i *haddewidion* llawn,
Yn nerth i'r gwan i'w dilyn trwy groesau'n llawen iawn.

6 Mae rhes o weinidogion fu'n ddiwyd ar y ma's,
'N ddiweddar wedi tewi a dweud am olud gras;
A brodyr parchus ereill sydd wedi gado'r llawr,
Maent gyda'r dyrfa ddedwydd sy'n moli'n Iesu mawr.

7 Wrth wel'd yr hyn ddigwydda i ereill yma a thraw,
Deffrown at waith ein bywyd, mae'n diwedd ni gerllaw;
Mewn gweithio mae'n dedwyddwch,—gwaith Duw sydd elw mawr,
O! ymbleserwn ynddo tra byddom ar y llawr.

*Abertawy.* E. GRIFFITHS.